# CROESO GAN WLBP

**Eich Llais.**
**Eich Safonau.**
**Eich Cymdeithas Cydweithredol**



**Diolch am fod yn rhan o WLBP a FAWL**
Mis newydd a dechrau newydd; cyfathrebiaeth rheolaidd a chlir
Rydym am i chi deimlo eich bod yn derbyn gwybodaeth angenrheidiol, ein bod ni'n eich cefnogi, a'ch bod yn teimlo hyder yng ngwerth eich aelodaeth.
Fel ccwmni cydweithredol sy'n eiddo i ffermwyr, mae eich llais yn ganolog i bopeth a wnawn, ac mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o'n hymrwymiad i wella sut rydym yn cadw mewn cysylltiad.

## DYMA'R HYN SYDD WEDI'I GYNNWYS YN RHIFYN MIS YMA:

**Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) & Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS): –** Y diweddariadau a'r hyn maen't yn eu olygu i gynhyrchwyr da byw Cymru.

**Gwerthfawrogi Eich Aelodaeth –** Trosolwg o'r manteision, y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i aelodau FAWL.

**Eich Llwyddiannau –** Edrych yn ôl ar lwyddiannau ein haelodau yn ystod y Sioe Frenhinol 2026.

**Nodyn Atgoffa –** Gwybodaeth ddefnyddiol i'w chadw wrth law.

**Newyddion –** Y datblygiadau a'r materion diweddaraf sy'n effeithio ar gynhyrchwyr cig oen a chig eidion yng Nghymru.

# DIWEDDARIAD CYLCH GWELLIANT IECHYD ANIFEILIAID (AHIC) A CHYDNABYDDIAETH

**Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru:**

Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS): Haen cyffredinol (Universal Action) 12 - Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)

Beth mae'n ei olygu i aelodau FAWL sydd wedi ymuno â'r SFS yn 2026?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i symleiddio'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) o fewn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).
Mae'r newid yn rhan o waith ehangach Llywodraeth Cymru i leihau'r baich biwrocrataidd ar ffermwyr. Cyhoeddodd Llyr Gruffydd Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwedd yn ystod y Sioe Frenhinol Cymru 2026:

***"Yn dilyn adborth cynnar o'r adolygiad annibynnol i'r baich biwrocrataidd ar ffermydd teuluol, dan arweiniad John Davies, cyhoeddodd y Gweinidog gamau cynnar i leihau biwrocratiaeth i ffermwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi symleiddio'r dull ar gyfer y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) yn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y symleiddio yn cael ei gyflawni mewn dwy ran. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag unrhyw gynllun gwarant fferm sydd â diddordeb i sicrhau bod gofynion wedi'u halinio, sy'n golygu mai dim ond un ffurflen y bydd angen i ffermwyr yn y cynlluniau hynny ei chwblhau o 2027 ymlaen, gan gyflawni dau ganlyniad o un ymweliad â milfeddyg: sicrwydd fferm a chydymffurfiaeth â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Wrth wraidd ein dull o weithredu mae'r berthynas waith agos rhwng ffermwyr a'u milfeddygon i gyflawni canlyniadau cadarnhaol".***

***BETH MAE HYN YN EI OLYGU I CHI?***
Os ydych yn aelod o FAWL ac wedi ymuno â'r SFS yn 2026, mae'n bosibl na fydd angen i chi gwblhau'r AHIC ar gyfer 2026. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros am gadarnhad pellach gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig ynghylch cydnabyddiaeth a enillir a'r ffordd y bydd y trefniadau'n gweithio ar gyfer 2027.
Rydym eisoes yn trafod y mater gyda Llywodraeth Cymru a byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted ag y bydd y manylion wedi'u cadarnhau. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, mae yna ganllawiau pellach wedi'u ddarparu gan y Llywodraeth. Rydym yn deall y gall newidiadau o'r natur hon godi cwestiynau a phryder, yn enwedig ynghylch cydnabyddiaeth a enillir.
Ar hyn o bryd, rydym yn aros am eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl cyhoeddiad yn yr wythnosau nesaf a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi cyn gynted ag y bydd y wybodaeth wedi'i chadarnhau. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod aelodau'n deall y sefyllfa'n glir ac yn gwybod beth mae'n ei olygu i'w fferm.
Dyma ddolen Adolygiad Biwrocratiaeth Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/ffermwyr-o-gymru-i-elwa-ar-adolygiad-biwrocratiaeth

# MWY NA BOD YN AELOD – GWERTH GWIRIONEDDOL I'CH FFERM

**Rydym yn gwybod bod ffermwyr eisiau gweld gwerth gwirioneddol o'u haelodath o WLBP a FAWL**

- **Mwy o hyder i brynwyr –** drwy gynhyrchu cig oen a chig eidion o Gymru sy'n bodloni safonau uchel.
- **Cydnabyddiaeth a enillir –** a all leihau'r tebygolrwydd o rai archwiliadau gan gyrff allanol.
- **Adolygiad iechyd a lles blynyddol –** er mwyn helpu i gynnal safonau uchel ar eich fferm.
- **Cyfrifiadau defnydd gwrthficrobaidd –** i'ch helpu i fonitro a deall eich defnydd.
- **Cymorth gyda chadw cofnodion –** gan wneud y gwaith gweinyddol mor syml â phosibl.
- **Cyfathrebu dwyieithog a chanllawiau ymarferol –** gwybodaeth glir, pan fydd ei hangen arnoch.
- Strwythur cydweithredol sy'n **rhoi ffermwyr yn gyntaf.**

**Fel cwmni cydweithredol sy'n eiddo i ffermwyr, rydym yn gweithio i chi ac yn ochr yn ochr â chi.**

**Eich fferm. Eich busnes. Eich cydweithfa**



# LLONGYFARCHIADAU



**Dewch i ni longyfarch llwyddiant ein aelodau yn y Sioe Frenhinoleleni**

## ADRANDEFAID:

**Gwobr Teulu Lloyd | Lloyd Family Award** = EB & S Jones, Fferm Blaenblodau
**Pencampwriaeth Oen Benyw Rhyngfrid George Hughes RWAS** = JM Jones & Co, Fron Goy
**Pencampwriaeth Grŵp Rhyngfrid RWAS** = PJ & MA Curran, Wern Fawr
**Cystadleuaeth Bugail/Ess** = AD & EE Richards, Cwmcelynen

---

## GWARTHEG GODRO:

**Cystadleuaeth Arolygu Cynhyrchu RWAS** = Wilson, Tregibby
**Pencampwriaeth Tîm o 3 RWAS (Perchnogaeth yr Arddangoswr)** = Wilson, Tregibby

---

## GWARTHEG CIG EIDION:

**Pencampwriaeth Rhyngfrid Tarw Iau (bridiau tarw)** = A & M Williams, Castell Mawr
**Ryngfrid Tarw Iau (bridiau brodorol)** = DE, ED & AL Jones, Gwastadgoed
**Ryngfrid Tarw Iau (bridiau cyfandirol)** = A & M Williams, Castell Mawr
**Pencampwriaeth Parau Bridio Arddangoswyr RWAS (cig eidion)** = WP Hughes a'i Fab, Fferm Uchaf

---

## ARALL:

**Gwobr Goffa Syr Bryner Jones** = Brian Davies, Dan Yr Eglwys
**Gwobr Dr Emrys Evans** = Gethin Lewis, Tynpistyll



# TAFOD GLAS: CYSYLLTWCH A'CH MILFEDDYG

*MAE POB FFERM YN WAHANOL - SIARADWCH Â'CH MILFEDDYG AM Y CAMAU PRIODOL AR GYFER EICH FFERM.*
*GWELER ISOD AM DDOLENNAU DEFNYDDIOL*

**CYNGOR TAFOD GLASA CHNEIFIO**

Cliciwch yma

**CANLLAWIAU NSA BTV SVS**

Cliciwch yma

**'BATTLE BLUETONGUE' GAN AHDB**

Cliciwch yma

**CRONFA ADDINGTON - GRANTIAU BRYS**

Cliciwch Yma

# PETHAI I'W GOFIO...

- **Cofnodion meddyginiaeth** - Gwnewch yn siŵr bod eich cofnodion yn gyfredol ac yn gyflawn.
- **Cofnodion symud da byw** - Adolygwch eich cofnodion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion BCMS ac EID Cymru.
- **Diweddariadau Llywodraeth Cymru** - Cadwch lygad am unrhyw wybodaeth newydd ynghylch cydnabyddiaeth ein cynllun.
- **Angen cymorth?** - Os oes angen help arnoch gyda thempledi neu gadw cofnodion, cysylltwch â ni neu ewch i'n gwefan i gael rhagor o arweiniad.

EWCH I'N GWEFAN

## RHIFYN MIS NESAF...

- **Cydnabyddiaeth a enillwyd**

Y wybodaeth diweddaraf a'r cydnabyddiaeth a enillwyd a beth mae hyn yn ei olygu i chi.

- **Offer digidol a chadw cofnodion**

Cyngor ymarferol ar wneud eich gwaith gweinyddol yn haws.

- **Mewnweledigad gan asesydd**

Awgrymiadau a chyngor o safbwynt asesydd.

- **Astudiaeth achos aelod**

Golwg ar brofiad un o aelodau FAWL.

## CADWCH LYGAD ALLAN AM EICH RHIFYN NESAF

**DIOLCH I CHI AM EICH YMRODDIAD PARHAUS TUAG AT FAWL A WLBP. RYDYM YN FALCH O GEFNOGI EIN FFERMWYR CYMREIG.**

www.wlbp.co.uk @WLBProducers info@fawl.co.uk 01970 636 688